Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Caradog
# Stryd Clifton
# Aberdâr
# CF44 7PB

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Caradog

Mae Ysgol Gynradd Caradog yn nhref Aberdâr, yng Nghwm Cynon, Rhondda Cynon Taf. Mae 221 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng 3 ac 11 oed, yn cynnwys 30 o ddisgyblion meithrin amser llawn. Cânt eu haddysgu mewn wyth dosbarth un oedran. Mae'r ysgol hefyd yn darparu ar gyfer 12 disgybl mewn canolfan adnoddau dysgu cyfnod allweddol 2 ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, bu tua 30% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan, sef 18%. Mae tua 21% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion arbennig, sydd yr un fath â chyfartaledd Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgol o dras Gwyn Prydeinig. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn ym mis Ebrill 2014. Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2019.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Caradog yn ysgol ofalgar lle mae disgyblion a staff yn ystyriol tuag at ei gilydd.  Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol.  Mae eu hymddygiad a'u lles yn gryfder penodol.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau a'u gwybodaeth dros gyfnod.

Mae gwaith darpariaeth anogaeth yr ysgol yn gryf iawn.  Mae oedolion yn cynorthwyo disgyblion yn dda, er mwyn iddynt ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyflawn.  Mae staff yn cynllunio ac yn cyflwyno profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion, ac yn eu cymell.  Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac maent yn cynnal perthynas waith gadarnhaol ac anogol gyda nhw.  Mae gwersi'n ddifyr ac mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dysgu.  O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n galed ac mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda.  Mae'r ysgol yn rhoi cefnogaeth gref ar gyfer datblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd.  Mae staff yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso a datblygu'r medrau hyn ymhellach yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth, mae'r pennaeth newydd wedi sefydlu ethos tîm cryf yn gyflym ac yn fedrus ymhlith y staff.  Mae pob un o'r arweinwyr yn sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog i'w gwaith, ac yn canolbwyntio'n dda ar sicrhau darpariaeth ystafell ddosbarth o ansawdd da, ac o ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda.  Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol ac yn gweithio'n llwyddiannus i ddatblygu eu medrau mewn gwella'r ysgol.  Mae hyn yn arwain at gynnydd cadarn mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Cynllunio camau gweithredu penodol a mesuradwy i gefnogi gwelliant yr ysgol

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael y lefel gywir o her yn eu gwaith ac yn datblygu eu dealltwriaeth ymhellach o'u cynnydd eu hunain ac o'u camau nesaf ar gyfer dysgu

A3 Sicrhau bod yr ysgol yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Ddim mewn categori gweithgarwch dilynol**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn gadael â safonau sydd o leiaf yn cyd-fynd â'r rheiny sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran a'u gallu.

Mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn Cymraeg a Saesneg yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion a'u cyfoedion yn y ddwy iaith, ac yn cyfathrebu'n hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn gorchmynion a chyfarwyddiadau Cymraeg yn synhwyrol. Wrth siarad Saesneg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i gwestiynau, ac mae llawer ohonynt yn ymestyn syniadau ei gilydd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn ymateb i'w gilydd â meddyliau a chyfraniadau treiddgar wrth drafod sut gallant wella eu gwaith, ac maent yn rhoi rhesymau tra ystyriol am eu barn ar nofel y dosbarth.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu Cymraeg, a gall llawer ohonynt weld budd gwneud hynny o ran eu rhagolygon i sicrhau gwaith pan fyddant yn hŷn. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cynnal sgyrsiau syml, er enghraifft i drafod eu teimladau a'r tywydd. Maent yn rhoi atebion estynedig i gwestiynau sylfaenol, er enghraifft trwy roi eu henw, ble maent yn byw a gwybodaeth ychwanegol am eu teuluoedd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn ymestyn eu hatebion i gwestiynau gan ddefnyddio geirfa ehangach ac ymadroddion mwy cymhleth. Mae ynganiad disgyblion yn y Gymraeg yn datblygu'n dda.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn adnabod geiriau Saesneg cyfarwydd a syml a defnyddiant eu gwybodaeth am lythrennau a'r seiniau y maent yn eu cynrychioli i ffurfio geiriau. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn darllen llyfrau stori electronig Cymraeg syml yn hyderus. Mae disgyblion mwy abl yn gwneud defnydd da o atalnodi i wella ystyr a mynegiant. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen amrywiaeth o destunau Cymraeg a Saesneg yn gywir a gyda dealltwriaeth. Maent yn addasu tôn eu llais yn effeithiol i gyfleu ystyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, wrth ddarllen testunau Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn brasddarllen a bwrw golwg dros ddarnau i ddod o hyd i wybodaeth, ac mae mwyafrif ohonynt yn rhesymu a dod i gasgliad ynghylch gwybodaeth o ddarllen. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn estynedig am eu hoff awduron llyfrau Saesneg, yn esbonio eu hoffterau a'u casbethau ac yn rhoi rhesymau gwybodus dros eu safbwyntiau.

Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn y ddwy iaith yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cofnodi eu meddyliau ag annibyniaeth gynyddol. Defnyddiant eu gwybodaeth am seiniau a symbolau i sillafu geiriau byr a chyfarwydd yn gywir. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu defnydd o atalnodi sylfaenol fel priflythrennau ac atalnodau llawn yn dda. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn ddestlus a gyda gofal. Mae llawer o

ddisgyblion yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae disgyblion yn defnyddio ystod rhy gyfyngedig o eirfa. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o strwythur brawddeg, ond yn achlysurol, maent yn colli cyfleoedd i addasu eu brawddegau i ychwanegu effaith neu ddiddordeb i'r darllenydd. Wrth ysgrifennu yn Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio patrymau brawddeg penodol yn briodol, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn ysgrifennu darnau diddorol o destun yn annibynnol, er enghraifft wrth ddisgrifio eu hysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mewn mathemateg yn llwyddiannus. Yn y cyfnod sylfaen, dangosant afael cadarn o ffeithiau rhif a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif syml. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn adnabod siapiau dau ddimensiwn yn hyderus, ac yn defnyddio eu gwybodaeth i addurno het gwrach â siapiau lliwgar, y gallant eu henwi. Mae llawer o ddisgyblion iau yn y cyfnod sylfaen yn ymdrin â gwahanol fesuriadau ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn hyderus i drafod eu gwaith, er enghraifft wrth fesur uchder a chylcheddau pwmpenni. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth effeithiol o strategaethau mathemategol ac maent yn eu cymhwyso mewn ystod gyfyngedig o gyd-destunau, fel cyfrifo effeithiau disgyrchiant ar eu pwysau ar wahanol blanedau. Mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn dehongli data'n gywir o amrywiaeth o graffiau llinell. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio offer, apiau a rhaglenni yn hyderus. Defnyddiant deganau rhaglenadwy yn gywir i drafod cyrsiau gosod. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau'n effeithiol i gyfleu eu syniadau, creu taenlenni a thrin data. Er enghraifft, maent yn creu cronfa ddata ar ôl gwneud arolwg o'r parc lleol. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn defnyddio rhaglennu gweledol yn hyderus i greu animeiddiad syml o bengwin.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn hapus i ddysgu. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt ymwybyddiaeth gref o barch am bobl eraill, y maent yn ei ddangos trwy eu rhyngweithio dyddiol. Dangosant ystyriaeth, cwrteisi a moesau da wrth ryngweithio â'u cyfoedion ac oedolion. Yn y cyfnod sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn symud yn annibynnol ac yn synhwyrol rhwng gweithgareddau dan do ac awyr agored. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymddygiad da iawn. Maent yn sgwrsio â'i gilydd ac ymwelwyr yn hyderus ac yn dangos awydd i drafod eu dysgu a rhannu eu syniadau a'u meddyliau. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i fwyta'n dda a chadw'n egnïol i aros yn iach, ac mae bron pob un ohonynt yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon ac mae bron pob un ohonynt yn frwd, yn awyddus i ddysgu ac yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn barod i ddysgu ar ddechrau'r diwrnod ac yn aml yn ymdawelu'n gyflym iawn i gwblhau'r arferion yn gynnar yn y bore, sy'n cynnwys datrys heriau mathemategol

neu lythrennedd yn ystod cofrestru. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwydnwch ac yn dyfalbarhau i oresgyn heriau a chwblhau tasgau. Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n annibynnol ac yn dangos yr hunanddisgyblaeth i barhau i ganolbwyntio. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn trefnu eu tasgau ymchwil yn systematig. Maent yn monitro pa mor dda y maent yn cwblhau eu tasgau trwy'r gweithgareddau amrywiol wrth ymchwilio i drechu Boudica.

Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n dda, gan ystyried syniadau eu cyfoedion yn ystyriol. Maent yn annog ei gilydd ac yn cynnig cymorth i sicrhau bod cyfoedion yn llwyddo i gyflawni eu tasgau. Er enghraifft, mae aelod o'r Criw Cymraeg yn annog ei gyfoedion i wella eu hatebion wrth gymryd rhan mewn trafodaeth Gymraeg. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau hunangymorth pan fyddant yn cael trafferth â'u gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio 'tri cyn fi' ('three before me'), ac yn defnyddio o leiaf dri dull i oresgyn anawsterau yn annibynnol cyn gofyn i oedolyn am gymorth.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod ganddynt lais yn eu dysgu. Gwnânt ddewisiadau am y testunau y maent yn eu dysgu, eu 'cenadaethau' dysgu a'u tasgau gwaith cartref. Mae llawer o ddisgyblion yn barod i gymryd rhan yn yr ystod eang o grwpiau llais y disgybl, a dangosant ymroddiad i wella profiadau dysgu a hamdden disgyblion. Er enghraifft, gwnânt awgrymiadau ynglŷn â gwella rheoli ymddygiad ar draws yr ysgol, y mae staff wedyn yn eu rhoi ar waith. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ethos yr ysgol trwy gynorthwyo disgyblion i reoli eu hymddygiad eu hunain.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 50% is, mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg o bob cwr o Gymru.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynllunio a chyflwyno ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, caiff disgyblion hŷn y cyfnod sylfaen eu hysbrydoli gan stori 'King Sparkle' i adeiladu cestyll o gardfwrdd yn yr ardal awyr agored. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cydweithio'n dda i ymchwilio i ffeithiau diddorol am y Rhyfel Byd Cyntaf, y Celtiaid a'r Rhufeiniaid. Mae athrawon yn cynnwys syniadau disgyblion yn llwyddiannus yn eu cynllunio, ac mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol mewn meysydd dysgu. Mae athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn rhoi cymorth effeithiol iddynt tra byddant yn gweithio. Mae'r perthnasoedd gwaith da iawn rhwng oedolion a disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae darpariaeth y cyfnod sylfaen yn effeithiol yn yr ysgol. Mae staff yn deall ac yn gweithredu addysgeg y cyfnod sylfaen yn dda. Defnyddiant yr amgylchedd awyr agored o ansawdd da yn dda i ddarparu gweithgareddau ysgogol a heriol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llawn. Yn benodol, maent yn darparu cyfleoedd difyr ar gyfer chwarae anniben, lle mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a'u medrau datrys problemau gyda deunyddiau naturiol ac artiffisial. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio i ddisgyblion gyfarwyddo eu dysgu eu hunain, trwy ennyn eu diddordeb yn dda mewn peintio mawr, ceginau mwd, modelau sbwriel a chwarae yn y dŵr.

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu effeithiol, sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Maent yn rhannu amcanion dysgu clir gyda disgyblion sy'n sicrhau bod llawer ohonynt yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i lwyddo mewn tasgau. Mae staff cymorth yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon yn fedrus ac yn cyfrannu at ddysgu disgyblion. Mae hyn yn sicrhau cymorth gwerthfawr i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mewn llawer o ddosbarthiadau, lle mae addysgu ar ei orau, mae athrawon yn defnyddio bachau dychmygus i ddenu disgyblion at destunau diddorol a sicrhau bod eu gwersi'n symud yn gyflym. Yn y dosbarthiadau hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel a defnyddiant gwestiynau penagored yn llwyddiannus i annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion yr hyder i roi cynnig ar dasgau, ac maent yn ymgymryd â nhw'n frwdfrydig ac yn annibynnol, heb ofni gwneud camgymeriadau. Mae hyn yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn gadarnhaol.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion yn y dosbarth cymorth dysgu yn effeithiol. Er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu wedi cael eu hyfforddi mewn ymyriadau mathemateg ac iaith, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a chynnydd disgyblion. Mae staff yn cynllunio'n ystyriol ar gyfer y disgyblion, er enghraifft trwy addysgu stori Yr Hugan Fach Goch trwy ddrama a chwarae rôl.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae athrawon yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion yn ystod gwersi, ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella eu gwaith. Mae hyn yn dechrau cefnogi cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn cynorthwyo disgyblion i ddewis tasgau sy'n eu herio i ymestyn eu dysgu. Er enghraifft, mae gormod o ddisgyblion yn ailadrodd tasgau ar lefel debyg wrth ddewis o blith yr ystod o 'heriau tsili' ('chilli challenges'), ac o ganlyniad, nid ydynt yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gysylltiadau â'r gymuned leol i wella'r cwricwlwm, er enghraifft wrth ymweld â'r parc gwledig lleol, y llyfrgell ac wrth dyfu eu cynnyrch bwyd eu hunain yn y rhandir cyfagos. At ei gilydd, mae athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn ysgrifennu cyfarwyddiadau i greu golau ar gyfer llong ofod, ac ym Mlwyddyn 5, mae disgyblion yn defnyddio gwefan Cwpan Rygbi'r Byd yn hyderus i ymchwilio i ystadegau diddorol ynglŷn â sut perfformiodd Cymru mewn gemau rygbi. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn pynciau eraill yn llai datblygedig ar draws yr ysgol.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion mewn gwersi Cymraeg ac ar adegau eraill o'r diwrnod, yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae sesiynau rheolaidd 'Helpwr Heddiw' yn werthfawr, ac maent yn cefnogi ac yn cymell y rhan fwyaf o ddisgyblion i fwynhau dysgu Cymraeg. Mae athrawon yn hyrwyddo agweddau ar dreftadaeth a diwylliant Cymru yn llwyddiannus, er enghraifft trwy astudio arlunydd lleol o Gymru, perfformio yn Eisteddfod flynyddol yr ysgol, ac ymweliad preswyl â Llangrannog.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae staff yn sicrhau bod yr ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol iawn. Maent yn adnabod disgyblion yn dda iawn ac yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau eu lles.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain a monitro cynnydd a lles yr holl ddisgyblion, a nodi'r rhai ag anghenion addysgol arbennig, a disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r ysgol yn darparu ystod effeithiol o ymyriadau ar gyfer disgyblion trwy sesiynau cymorth amserlenedig rheolaidd i ddatblygu eu medrau mathemateg ac iaith, yn ogystal â sesiynau i ddiwallu eu hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Er enghraifft, caiff disgyblion fynediad i 'Ystafell yr Enfys' ('Rainbow Room'), a ddatblygwyd fel man tawel lle mae disgyblion yn myfyrio ar eu teimladau a'u hwyliau mewn amgylchedd digynnwrf a diogel. Mae'r ysgol yn gweithio'n briodol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, fel yr uned niwro-ddatblygiadol yn yr ysbyty lleol, i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu.

Mae staff yn y dosbarth cymorth dysgu yn darparu ystod o brofiadau dysgu personoledig ar gyfer disgyblion. Defnyddiant amrywiaeth o adnoddau ysgogol i sicrhau bod disgyblion yn y dosbarth hwn hefyd yn elwa ar gwricwlwm eang a chytbwys sy'n briodol i anghenion unigol pob disgybl.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cynnwys siop ffrwythau iach, y mae disgyblion yn helpu ei rhedeg. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a chymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cyflawni rolau fel y 'Meddygon Digidol' i gynorthwyo eu cyfoedion mewn gwahanol grwpiau blwyddyn i ddatblygu eu medrau TGCh. Mae trefniadau addas i ddisgyblion ethol eu cyfoedion ar grwpiau llais y disgybl, fel y cyngor ysgol, y pwyllgor eco a chyfryngwyr cyfoedion. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o brosesau democrataidd a gwneud penderfyniadau yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio dulliau adferol effeithiol i hyrwyddo dinasyddiaeth dda, gwerthoedd pwysig a moesau uchel. Mae staff yr ysgol yn meithrin perthnasoedd proffesiynol llwyddiannus iawn gyda disgyblion ac yn ymateb yn brydlon ac yn llwyddiannus i unrhyw achosion o fwlio neu wahaniaethu. Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfyngedig o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys gwyddoniaeth a thechnoleg, clwb yr Urdd, pêl-rwyd, a'r clwb cadw'n iach. Mae'r rhain yn ehangu profiadau disgyblion yn briodol. Mae athrawon yn defnyddio addoli ar y cyd a gwasanaethau yn effeithiol i wella datblygiad ysbrydol a diwylliannol disgyblion. Er enghraifft, mae gwasanaeth ysgol gyfan yn canolbwyntio'n dda ar fod yn ddiolchgar am fwyd a ffermwyr adeg y cynhaeaf.

Mae gan yr ysgol berthnasoedd llwyddiannus iawn gyda rhieni. Trwy wneud defnydd da o gyfryngau cymdeithasol, mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n dda am ddigwyddiadau a gweithgareddau. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni yn nysgu eu plant, trwy gynnal digwyddiadau fel diwrnodau agored y cyfnod sylfaen, a gweithdai ar fentrau mathemateg newydd i roi gwybodaeth i rieni allu cynorthwyo eu plant. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd i rieni ddewis testunau ar gyfer gweithdai yn y dyfodol trwy ddefnyddio ffurflenni adborth yn dilyn y digwyddiadau hyn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth a benodwyd yn ddiweddar weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol a disgwyliadau uchel ar gyfer lles a chyflawniad yr holl ddisgyblion. Mae ganddi strategaeth hirdymor gadarn ar gyfer gwella'r ysgol ac mae'n cyflwyno strategaethau'n feddylgar i gefnogi datblygiad effeithiol yr ysgol. Er enghraifft, caiff staff ar bob lefel amser i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu dealltwriaeth well ac ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Caiff y pennaeth gymorth gwerthfawr gan uwch dîm arweinyddiaeth dynodedig sy'n gyrru'r ethos cynhwysol sy'n nodwedd gref o'r ysgol. Mae'r pennaeth yn dosbarthu arweinyddiaeth yn dda ac mae grwpio staff mewn timau yn arwain at ddiwylliant cadarnhaol o ddidwylledd a rhannu arfer dda. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn ac yn dangos llawer o ymroddiad, gan gyfrannu'n dda at fentrau newydd. Er enghraifft, maent yn darparu bachau ac adnoddau dychmygus i sbarduno meddyliau disgyblion yn ystod sesiynau ystafell ddosbarth a sesiynau awyr agored. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddewis beth hoffent ei ddysgu, a sut.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Maent yn cynnal cyfarfodydd is-bwyllgor a chyfarfodydd tymhorol effeithiol ac maent wedi'u cysylltu â meysydd y cwricwlwm, yn ôl eu cryfderau. Er enghraifft, mae llywodraethwyr sy'n gyfrifol am lythrennedd ac anghenion addysgol arbennig, yn meithrin cysylltiadau defnyddiol â staff perthnasol yr ysgol i fonitro datblygiad y meysydd hyn o waith yr ysgol. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at brosesau hunanwerthuso trwy gyfweliadau ag arweinwyr y cwricwlwm, cymryd rhan mewn teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion.

Mae gweithgareddau hunanwerthuso yn bwrpasol ac yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae gan uwch arweinwyr rôl amlwg mewn hunanwerthuso ac maent yn defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol yn effeithiol, er enghraifft o holiaduron i ddisgyblion, staff a rhieni. Caiff arweinwyr ddarlun cywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i nodi'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer gwella, er enghraifft o fewn ei chynllun gwella. Fodd bynnag, nid yw camau gweithredu o fewn blaenoriaethau unigol ar gyfer gwella yn ddigon penodol i alluogi arweinwyr i nodi eu llwyddiannau ac unrhyw feysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos effeithiol i gefnogi datblygiad staff. Mae bron pob un o'r staff yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol sy'n cael effaith fuddiol ar arfer bresennol ac yn canolbwyntio'n dda ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae staff yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd yn rhwydd ac yn effeithiol, gan felly hyfforddi ei gilydd trwy gydweithio, yn ogystal â chymryd rhan mewn sesiynau hyfforddiant ffurfiol. Er enghraifft, caiff cynorthwywyr addysgu eu hyfforddi'n dda i ddarparu strategaethau ymyrraeth defnyddiol i'r disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt â'u dysgu. Caiff staff yn y dosbarth cymorth dysgu hyfforddiant buddiol i'w galluogi i ddiwallu anghenion penodol disgyblion yn effeithiol. Mae bron pob un o'r staff yn elwa ar gydweithio defnyddiol o fewn yr ysgol a gydag ysgolion eraill yn y clwstwr lleol, er enghraifft yn y prosiect datblygu rhesymu rhifiadol o ysgol i ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff addysgu a staff cymorth. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau

gwella'r ysgol ac yn mynd i'r afael yn llwyddiannus ag anghenion datblygiad personol staff. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn effeithiol. Gwnânt benderfyniadau darbodus i sicrhau bod cynllunio ariannol yn diwallu anghenion yr ysgol.

Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau dynol ac ariannol yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau a strategaethau presennol yr ysgol, fel darparu ystod ehangach o offer TGCh. Mae'r pennaeth yn defnyddio staff yn effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion, er enghraifft trwy wneud defnydd effeithiol o gynorthwywyr addysgu i ddarparu cymorth hanfodol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynigion buddiol i leihau effaith tlodi ar ei disgyblion trwy sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol, er enghraifft i ariannu ystod addas o ymyriadau, clwb brecwast, ac i ddarparu gweithdai darllen ar gyfer rhieni i'w cynorthwyo â rhoi cymorth i'w plant pan fyddant yn darllen gartref.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2019